**Cyfarfod Pwyllgor Cymru y BBC**

**BBC Cymru, Y Sgwâr Canolog,**
**Caerdydd**

**COFNODION**

17eg Medi 2024

**EITEMAU BUSNES**

1. Cyflwyniad, cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru
2. Adroddiad Cyfarwyddwr BBC Cymru
3. Adroddiad Cyfarwyddwr Cenhedloedd y BBC
4. Cynlluniau Comisiynu Teledu ac iPlayer Saesneg
5. Hawliau Chwaraeon
6. Cynulleidfaoedd
7. Cyllid
8. Adolygiadau Golygyddol
9. Unrhyw fater arall a chau'r cyfarfod

**YN BRESENNOL**

*Aelodau:*

- Michael Plaut, Cyfarwyddwr Anweithredol (Aelod dros Gymru) (Cadeirydd)
- Michael Smyth, Cyfarwyddwr Anweithredol
- Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, Y Cenhedloedd
- Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr, BBC Cymru
- Rhys Evans, Pennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi Cyhoeddus, BBC Cymru

*Gyda:*

- Samir Shah, Cadeirydd, Bwrdd y BBC (eitemau 1-6)
- Kate Phillips, Cyfarwyddwr Comisiynu, Di-sgript
- Mark Grinnell, Arweinydd Gweithredol *(ysgrifennydd)*
- Richard Armstrong, Cyfarwyddwr CRBA, Chwaraeon (eitem 5)
- Carolyn Hitt, Uwch Bennaeth Cynhyrchu Cynnwys, Cymru (eitemau 4,5,6)
- Nick Andrews, Uwch Bennaeth Comisiynu Cynnwys, Cymru (eitemau 4,5,6)
- Gareth Davies, Uwch Bennaeth Marchnata *(*eitem *6)*
- Dafydd Meredydd, Uwch Bennaeth Cynhyrchu Cynnwys, BBC Radio Cymru (eitem 6)
- Nia Morgan, Uwch Bartner Busnes Cyllid ( (eitem 7)
- Peter Johnston, Cyfarwyddwr Cwynion/Adolygiadau Golygyddol (eitem 8)

**COFNODION PWYLLGOR CYMRU Y BBC**

**17eg Medi 2024**

**1. Cyflwyniad, cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'i fis gyntaf yn y rôl, yn cwrdd â rhanddeiliaid allweddol a chynulleidfaoedd yn nigwyddiadau BBC Cymru, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, y Sioe Frenhinol a safleoedd a digwyddiadau'r BBC yn Aberystwyth, Caerfyrddin, Bangor a Wrecsam.

1.3 Llongyfarchodd y Cadeirydd y Tîm Newyddion yn BBC Cymru ar arlwy'r Etholiad Cyffredinol.

1.4 Llongyfarchodd y Cadeirydd Cyfarwyddwr BBC Cymru ar gael ei hurddo i Orsedd y Beirdd, i gydnabod ei chyfraniad nodedig i Gymru, yr iaith a'i diwylliant.

1.5 Cymeradwywyd cofnodion Pwyllgor 4ydd Mehefin heb unrhyw wrthdaro.

**2. Adroddiad Cyfarwyddwr BBC Cymru**

2.1 Llongyfarchodd y Cyfarwyddwr y Cadeirydd ar ei benodiad fel yr aelod dros Gymru, ac am ei gefnogaeth bersonol a her adeiladol.

2.2 Croesawodd y Cyfarwyddwr Cadeirydd Bwrdd y BBC i Gymru ar gyfer y cyfarfod.

2.3 Clywodd y Pwyllgor am yr haf o ddigwyddiadau byw, gan gynnwys y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd.

2.4 Clywodd y Pwyllgor am arlwy golygyddol yr Etholiad Cyffredinol. Rhoddodd BBC Cymru sylw i'r ymgyrch mewn dwy iaith ar wasanaethau digidol, teledu a radio. Ar noson yr etholiad, cafwyd rhaglen deledu etholiadol llawn gyda sylw a dadansoddiad manwl o'r canlyniadau ar gyfer BBC One Wales, yn ogystal â S4C, ac i radio'r bore a defnyddwyr digidol.

2.5 Rhoddwyd sylw i'r Sioe Frenhinol ar draws BBC Cymru a gwasanaethau rhwydwaith, gyda dros 40 awr ar radio a theledu yn ogystal ag arlwy cynhwysfawr ar-lein.

Recordiwyd penodau o *Farming Today* ar Radio 4 a *Terry Walton's Plotcast* ar BBC Sounds yn y Pentref Garddwriaeth newydd.

2.6 Yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd, darlledodd BBC Cymru dros 100 awr o gynnwys.

2.7 Ar BBC Radio Wales, fe wnaeth taith Wynne Evans o lefydd glan môr ymweld â lleoliadau o Landudno i Ynys y Barri, ac Aberystwyth a Dinbych-y-pysgod ar hyd y ffordd.

2.8 Talodd y Cyfarwyddwr deyrnged i Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Roedd eu chwe chyngerdd yn ystod y Proms yn amrywio o Verdi i Prokofiev i gerddoriaeth Murray Gold ar gyfer *Doctor Who.*

2.9 Mae cyd-gomisiynau diweddar, gan gynnwys *Saving Lives in Cardiff* a'r gyfres ddogfen am siwrnai canser seren *Strictly Coming Dancing*, Amy Dowden, ynghyd â rhai teitlau newydd eraill, wedi cynyddu defnydd y gynulleidfa ar BBC iPlayer.

2.10 Enillodd drama BBC Cymru, *Lost Boys and Fairies* y wobr Ffuglen Ewropeaidd Orau yng Ngŵyl y Festival de la Fiction yn La Rochelle.

2.11 Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad am y gwaith i gyrraedd targedau arbedion BBC Cymru. Mae cynllun diswyddiadau gwirfoddol ar agor i staff.

2.12 Bydd cystadleuaeth *Canwr y Byd Caerdydd* yn cynnal cyngerdd gala yn 2025 ac mae Neuadd Dewi Sant yn parhau i fod ar gau yn ystod y cyfnod hwn tra'n aros i'r gwaith adeiladu ddechrau.

2.13 Mae uchafbwyntiau'r cynnwys ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys y comedi, *Death Valley* a'r ddrama, *Mr Burton* yn ogystal â rhifyn y Nadolig o *Gavin and Stacey*.

3. **Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd**

3.1 Mae cyhoeddiadau yn ymwneud ag arbedion wedi'u gwneud ar draws adran y Cenhedloedd.

3.2 Mae’r BBC yn gobeithio cyflawni’r targedau arbedion drwy Ddiswyddiadau Gwirfoddol lle bo’n bosib.

3.3 Amlinellodd y Cyfarwyddwr y newidiadau arfaethedig i’r Cynllun Gohebwyr Democratiaeth Leol, y byddai'r contract ar ei gyfer yn cael ei ail-dendro am werth uwch.

3.4 Clywodd y Pwyllgor am ddatblygiadau diweddaraf Ar Draws y DU.

3.5 Trafododd y Pwyllgor S4C a’r posibilrwydd o roi fwy o amlygrwydd i’r darlledwr ar BBC iPlayer, yn ogystal â’i chwaraewr ei hun, *Clic*.

3.6 Mae gwaith ar droed i reoleiddio amlder rhaglenni portread sy’n cael effaith sylweddol ym mhob un o’r cenhedloedd datganoledig, er mwyn sicrhau bod llif rheolaidd o gynnwys portread. Bydd y gwaith hwn wedi’i gwblhau erbyn diwedd Hydref.

**4. Cynlluniau comisiynu teledu ac iPlayer Saesneg**

4.1 Trafododd y Pwyllgor y Fframwaith Comisiynu a ddefnyddir yng Nghymru a gynlluniwyd i gynnal cynulleidfaoedd llinol tra’n cynyddu defnydd digidol.

4.1 Mae’r BBC yn symud oddi wrth iPlayer fel gwasanaeth dal-i-fyny i fod yn wasanaeth digidol yn gyntaf.

4.3 Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb yn canolbwyntio ar gynnwys sy’n creu effaith sylweddol sydd wedi’i sgriptio ac yn ddi-sgript.

4.4 Mae angen i gytundebau cyd-gomisiynu weithio i gynulleidfaoedd yng Nghymru a’r sector gynhyrchu fel ei gilydd.

4.5 Clywodd y Pwyllgor amlinelliad o gynyrchiadau’r dyfodol sydd wrthi’n cael eu comisiynu.

**5. Chwaraeon**

5.1 Clywodd y Pwyllgor drosolwg o’r hawliau chwaraeon sy’n berthnasol i Gymru.

5.2 Mae twf digidol yn rhan bwysig o strategaeth chwaraeon y dyfodol yng Nghymru.

5.3 Mae digidol hefyd yn galluogi i chwaraeon llai prif ffrwd gael sylw ochr yn ochr â rhai o'r eiliadau mawr cenedlaethol.

5.4 Trafododd y Pwyllgor y dyddiadau y daw cytundebau hawliau chwaraeon allweddol i ben gyda map trywydd adnewyddu; gan gynnwys Euros y Merched ar draws pob platfform. Nododd y Pwyllgor y byddai hyn yn gyfle i gynyddu amlygrwydd chwaraeon Merched ar draws brandiau'r BBC.

5.5 Byddai cynnydd chwaraeon yn cael ei drafod mewn Pwyllgor yn y dyfodol.

**6. Cynulleidfaoedd**

6.1 Mae cynulleidfaoedd ar gyfer cynnwys y BBC yng Nghymru yn sgorio'r un peth neu uwchlaw cyfartaledd y DU.

6.2 Mae'r metrig 'ei ddewis yn aml' yng Nghymru ddeg pwynt yn uwch na chyfartaledd y DU, yn bennaf oherwydd y defnydd o wasanaethau sain.

6.3 Mae gorsafoedd radio Lleol a'r Cenhedloedd yn cyrraedd tua 7 miliwn o wrandawyr yr wythnos.

**7. Cyllid**

7.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cyllid diweddaraf a'r rhagolwg yn ymwneud â BBC Cymru.

7.2 Mae lansiad BBC Radio Cymru 2 yn golygu cynnydd mewn oriau darlledu ar y sianel hon.

7.3 Mae'r fenter Ar Draws y DU wedi arwain at gynnydd yn nifer y staff yn BBC Cymru.

**8. Adolygiadau Golygyddol**

8.1 Clywodd y Pwyllgor am yr adolygiad Golygyddol diweddaraf ar y thema Mudo.

8.2 Byddai mwy o sesiynau ymgysylltu â staff yn cael eu trefnu'n lleol.

8.3 Byddai adolygiad o bortread a chynrychiolaeth ar y gweill. Mae cyfarwyddwyr wedi cwrdd â'r awduron a bydd sesiwn fesul cenedl i gwrdd â'r awduron ac i gael sgwrs gyffredinol am y pwnc. Bydd awduron eisiau clywed wrth randdeiliaid perthnasol.

8.4 Mae Pencampwyr Didueddrwydd yn eu lle yng Nghymru.

**9. Unrhyw Fater Arall**

9.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor a phawb a gyfrannodd at y cyfarfod.

9.2 Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei rannu .

9.3 Nid oedd unrhyw fater arall yn codi.

**Daeth y cyfarfod i ben.**